**Pwyllgor Diwylliant - CC-5-02(p.2a)**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 27 Chwefror 2002 |
| **Amser:** | 9.00am -12.30pm |
| **Lleoliad:** | Ystafell Bwyllgora 1, Cynulliad Cenedlaethol |

**ADOLYGIAD YR IAITH GYMRAEG**

**PAPUR SAFLEOLI**

1. Mae'r dystiolaeth am sefyllfa'r iaith Gymraeg a dderbyniwyd gan y pwyllgor yn cadarnhau:

- fod sefyllfa'r iaith Gymraeg yn y cadarnleoedd traddodiadol yn gwaethygu;
- fod adfer y lluaws tyngedfennol yn galw am strategaeth glir ac eang sy'n cael ei derbyn a'i gweithredu gan yr holl asiantaethau;
- fod angen i'r strategaeth honno dderbyn y gwahaniaethau sy'n bodoli rhwng gwahanol rannau o Gymru;
- fod angen i'r strategaeth hefyd wahaniaethu rhwng gwahanol sectorau – yn fras y sector breifat a'r sector gyhoeddus.

1. Derbyniwyd tystiolaeth gan arbenigwyr ym maes cynllunio ieithyddol oedd yn gosod sefyllfa'r iaith Gymraeg mewn cyd-destun rhyngwladol:

- Mae ieithoedd mewn perygl ym mhob rhan o'r byd a bydd yr iaith Gymraeg yn diflannu fel cyfrwng cyfathrebu dros y ganrif nesaf os na chymerir camau positif i newid y cyfeiriad.
- Mae'r grymoedd sy'n prysuro'r difodiant yn rymoedd byd-eang na ellir eu hatal.
- Mae enghreifftiau o wledydd eraill o fentrau sydd wedi llwyddo i liniaru'r effaith ond ni ddylid gor-ddibynnu ar ddynwared rhywbeth sy'n gweithio mewn gwledydd eraill.

- Mae trosglwyddiad iaith o genhedlaeth i genhedlaeth yn ffactor holl-bwysig ac y mae ffomiwla gydnabyddedig yn dangos sut mae diffyg trosglwyddiad yng Nghymru yn dyfnhau'r creisis.

1. Mae'r dystiolaeth wedi dangos diffyg strategaeth genedlaethol mewn perthynas â nifer o feysydd:

- Mae cryn wastraff adnoddau yn y broses o gyfieithu dogfennau a'r cwestiwn sylfaenol yw faint o adnoddau y dylid eu blaenoriaethu rhagor gweithgareddau eraill.
- Nid yw'r broses o ddysgu oedolion i siarad Cymraeg fel ail iaith yn gyson effeithiol ledled Cymru ac nid yw wedi ei sefydlu ar anghenion y dysgwr.
- Mae diffyg adnoddau, yn enwedig adnoddau ariannol, yn llesteirio datblygiadau mwy mentrus.
- Mae diffyg sicrwydd cyllid am gyfnod hwy na blwyddyn yn dadysgogi'r asiantaethau sy'n gweithredu yn y maes.

1. Roedd pwysigrwydd arweiniad y Cynulliad Cenedlaethol yn thema gyson yn y dystiolaeth.

- Roedd llywodraeth leol yn chwilio am arweiniad y Cynulliad.
- Roedd Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn chwilio am arweiniad ac ymateb i argymhellion yr Adolygiad pum mlynedd i newid pwyslais eu gweithgaredd.
- Roedd y Bwrdd hefyd yn pwysleisio'r angen i weithredu yn hytrach na thrafod a deddfwriaethu.
- Nodwyd pwysigrwydd ystyried yr iaith Gymraeg fel ffactor holistaidd yn holl weithgareddau Llywodraeth Cymru, yn enwedig cynllunio economaidd a rheolau cynllunio gwlad a thref.

1. Derbyniwyd nifer o awgrymiadau penodol am gamau blaengar y gellid eu cymryd i wella'r sefyllfa:

- Datblygu'r mentrau iaith.
- Sicrhau chwystrelliad i economi'r cadarnleoedd traddodiadol drwy symud canolfannau sefydliadau Cymraeg o'r brifddinas.
- Sefydlu Pwerdy Iaith i ofalu am greu strategaeth genedlaethol fyddai'n addasu i anghenion y cyfnod a gweithredu'r strategaeth yn effeithiol

1. Mae'r dystiolaeth hefyd wedi nodi gwahanol ddulliau o weithredu:

- Deddfwriaeth newydd;
- Sefydlu Comisiwn i adrodd ymhen dwy flynedd;
- Ehangu cyfrifoldeb y Bwrdd Iaith a chreu Awdurdod Iaith;

1. Datganiad cychwynnol i'w drafod gan y pwyllgor ar sail y dystiolaeth.

    1. Mae arweiniad a pherchnogaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn allweddol i ffyniant yr iaith Gymraeg. Er fod pob polisi iaith yn y pen draw yn dibynnu ar ewyllys a phenderfyniad unigolion i drosglwyddo'r Gymraeg i'r genhedlaeth nesaf, mae o fewn gallu'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru i greu'r amgylchiadau priodol i sicrhau fod pobl Cymru yn sylweddoli fod yr iaith Gymraeg yn ychwanegu at werth eu bywydau. Mae gwerth yn golygu gwahanol bethau i wahanol bobl, felly rhaid sicrhau fod pob cam a gymerir yn gynhwysol a dim yn dieithrio unrhyw un oddiwrth y Gymraeg.

    2. Mae tystiolaeth arbenigwyr yn dweud dau beth am y cyflwr o fod yn wlad ddwyieithog. Yn gyntaf, rhaid rhoi pwyslais ychwanegol o ran gweithgaredd a gwariant ar yr iaith lai a sicrhau fod iddi werth arbennig ym mywyd y bobl. Yn ail, fod ei ffyniant yn dibynnu ar ewyllys y gymdeithas gyfan. Nid yw hyn yn golygu fod rhaid i bob peth a phob un fod yn ddwyieithog ond fod rhaid i'r fframwaith gweithredol sicrhau fod yr un cyfleon ar gael yn y ddwy iaith a bod cydbwysedd rhwng hawliau unigolion a hawliau'r gymuned ym mhob rhan o Gymru. Gan mai nod y Cynulliad yw Cymry ddwyieithog mae'n bwysig fod cymunedau yn yr ardaloedd traddodiadol ddi-Gymraeg, lle bu cynnydd yn y blynyddoedd diwethaf, yn rhannu ac yn gweithredu ar sail yr un weledigaeth ond fod y pwyslais yn newid yn ôl anghenion y cymunedau hynny.

    3. Mae'n bwysig sefydlu un strategaeth genedlaethol gyda hyblygrwydd i weithredu'n effeithiol yn ôl angen y cymunedau. Wrth wneud hyn, mae modd osgoi cyfaddawdu'n ddiangenrhaid rhwng gwahanol rannau o Gymru lle mae'r

anghenion yn wahanol. Mae'n golygu hefyd y gall holl bobl Cymru berchnogi'r un strategaeth a'i gweithredu yn ôl anghenion eu bro a'u cymuned. Gan fod creu'r ewyllys i ddefnyddio a throsglwyddo'r iaith yr un mor bwysig â'r cyfleon a'r hawliau, rhaid i'r strategaeth genedlaethol sicrhau lle i'r iaith ym mob rhan o fywyd y bobol. Rhaid i'r iaith fod yn werthfawr ac yn ddeniadol i bobol yn eu presennol ac nid yn unig am ei bod yn deilwng neu'n barchus neu'n hen. Rhaid i'r gweithgaredd a ysgogir gan y Cynulliad Cenedlaethol ei gwneud yn ddeniadol ac yn hwyl. Rhaid sicrhau fod y fframweithiau fydd yn ei chynnal yn gynhwysol ac nid yn perthyn i unrhyw garfan nac yn fesur o deyrngarwch cenedlaethol. Continiwm yw caffael iaith ac mae'r iaith yn perthyn i bawb ar y continiwm hwnnw.

4. Mae i'r syniad o Gymanfa Bro le pwysig iawn mewn gwireddu strategaeth genedlaethol o fewn y cymunedau. Dewiswyd y gair Cymanfa er mwyn cyfleu rhywbeth o faintioli ac i wahaniaethu rhwng y syniad a'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd. Bydd Cymanfa Bro yn cael ei chefnogi gan yr awdurdod lleol nid yn unig yn ariannol ond bydd yn cynghori'r awdurdod ar strategaeth fydd yn effeithio ar yr iaith, fel cynllunio a chynllunio economaidd. Nid ydynt yn sefydliadau parhaol sy'n gweithredu o'r canol. Byddant o fewn y gymdeithas a'r gweithwyr fel *animateurs* mewn cymunedau yn cyffroi, ysgogi a chynnal. Mae lle i'r sefydliadau cenedlaethol fel yr Urdd a Chlybiau Ffermwyr Ifanc o fewn y strategaeth genedlaethol a hefyd i gymryd rhan fel partneriaid egniol yn y Cymanfaoedd Bro. Dylid sefydlu Cymanfa ar sail awydd pobl mewn cymuned arbennig gyda chefnogaeth lwyr yr Awdurdod Lleol. Gellir sicrhau ffresni'r Gymanfa drwy seilio ei bodolaeth ar drwydded neu ryddfraint dros dair neu bedair blynedd ac ail hysbysebu ar ddiwedd y cyfnod. Byddai cefnogaeth yr Awdurdod Lleol yn yn sicrhau parhad ond byddai'r gystadleuaeth yn osgoi'r temtasiwn i golli cysylltiad â'r bobol. Byddai Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn hysbysebu'r rhyddfraint neu'r drwydded a byddai angen i'r grwpiau fyddai'n cystadlu ddangos cefnogaeth ar draws y gymuned, gyda phartneriaid o fyd busnes ynogystal â'r sector wirfoddol a bywyd cyhoeddus. Byddai angen i'r fenter weithredu fel ysgogydd i fentrau busnes ynogystal â gweithgaredd cymunedol a chyflogi a hyfforddi pobol ifanc o'r ardal fel *animateurs.*

5. Er mwyn sicrhau cyd-lynu effeithiol mewn syniadau a chreu lle i ddatblygu syniadau newydd fydd yn gallu trosglwyddo o un ardal i'r llall bydd angen creu Fforwm neu Rwydwaith Barhaol ar gyfer y cyrff sy'n gweithio yn y maes. Fforwm ar y we fyddai hon yn null nifer o rwydweithi tebyg yn America (gw. Digital Divide Network dan oruchwyliaeth y Benton Foundation yn UDA, fel enghraifft.) Er iddi gael ei sefydlu gydag arian y Cynulliad, byddai'n gweithredu'n annibynnol ac yn gwasanaethu'r asiantaethau. Hon fydd y pwerdy iaith ac o fewn patrwm y Cymanfaoedd a'r cyrff eraill byddai'n aros yn annibynnol ar unrhyw un dylanwad gwleidyddol. Nid oes iddi werth os nad yw'n gynhwysol o anghenion Cymru gyfan. Ar y fforwm hon y cyhoeddir ac y trafodir y wybodaeth ddiweddaraf gan gynnwys

gwybodaeth ryngwladol gan y comisiwn parhaol. Byddai'n fforwm gyhoeddus gyda mynediad i fewnrwyd i'r cyrff eu hunain. Byddai'r arian cynnal yn dod dan drwydded neu ryddfraint pedair blynedd yn cael ei weinyddu a'i reoleiddio gan y Bwrdd Iaith fel y Cymanfaoedd Bro, a byddai angen i'r cwmni fyddai'n cynnal y fforwm ddangos y gallu i gynnal annibyniaeth a gweithredu'n effeithiol.

6. Bydd angen sefydlu cronfa (o faint i'w benderfynu) fydd yn cael ei weinyddu gan y Bwrdd Iaith ar ran y Cynulliad i alluogi'r gwahanol flaengamau hyn. Fe'i gweinyddir yn ôl rheolau ffurfiol a thyn (fel unrhyw gronfa gyhoeddus) gan osgoi gwariant mympwyol y tu allan i'r strategaeth genedlaethol. Ond byddai rhan o'r gronfa wedi ei chlustnodi ar gyfer buddsoddiad mentrus (high risk) naill ai ar sail brwyfrydedd yr ymgeiswyr (sydd am brynu swyddfa bost neu dafarn mewn ardal, er enghraifft) neu oherwydd y gallai cefnogi menter benodol sy'n cynrychioli agwedd boblogaidd ar ein bywyd cenedlaethol fel twrnament rygbi neu bel-droed, neu grwp pop i gynyddu ymwybyddiaeth neu flachder yn y Gymraeg. Gellid ei drin fel buddsoddiad a gellid chwilio am bartneriaid eraill, fel y loteri neu'r darlledwyr neu fenter fasnachol ryngwladol i gyd-ariannu. Bydd angen bwrdd bychan o arbenigwyr entrepreneuraidd i wneud y penderfyniadau a bwriedir gofyn i'r WDA, y Bwrdd Croeso ac eraill i gynorthwyo gyda sefydlu'r gronfa. Cyfrifoldeb y Bwrdd Iaith fyddai gweinyddu'r gwariant a'r monitro.

7. Bydd angen newid cylch gwaith a blaenoriaethau'r Bwrdd Iaith (beth bynnag am yr enw a'r strwythur – a gall fod oblygiadau deddfwriaethol i hynny) i sicrhau'r newidiadau angenrheidiol. Cafwyd awgrym o'r angen wneud hyn yn adroddiad pum mlynedd y bwrdd a dderbyniwyd gan y cynulliad y llynedd. Bydd tair elfen i'w weithgarwch. Yn gyntaf, y swyddogaeth draddodiadol yn delio gyda chreu a monitro cynlluniau iaith. Yn ail, bod yn gorff rheoleiddio ar fentrau bro. Yn drydydd, i sefydlu uned barhaol, gyda phwyllgor o arbenigwyr, fyddai'n gyfrifol am ymchwil, am astudiaethau cymharol o wledydd eraill, ac a fyddai'n ganolog i'r pwerdy iaith, y fforwm barhaol a nodwyd uchod.

8. Nid oes modd sicrhau cyfartaledd parhaol i'r iaith Gymraeg gyda mentrau sy'n annibynnol ar bolisiau'r llywodraeth waeth pa mor gyffrous yw'r rheini ar y pryd. Hanfod y math hwnnw o weithredu yw ei fod yn galluogi newid ac addasu'n gyflym yn wyneb newidiadau allanol sy'n nodwedd o'r economi fyd-eang. Rhan bwysig o'r strategaeth fyddai sefydlu uned strategol barhaol ar lefel uchel o fewn gweinyddiaeth Llywodraeth Cymru sy'n trawsdorri gwahanol adrannau ac yn creu strategaeth ar gyfer yr iaith Gymraeg o'r polisiau gweithredol ym mhob maes. Byddai'n gweithredu'n holistaidd fel mae'r unedau strategol Cynaladwyedd, Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu a Chyfle Cyfartal yn gweithredu ar hyn o bryd. Byddai'n gyfrifol i weinidog ac i un o'r prif swyddogion ar lefel weithredol. Er

enghraifft, mae cyflenwi 'broadband' i Gymru gyfan yn un o amcanion polisi'r llywodraeth ac yn rhan o'i strategaeth. Nid oes cost ychwanegol i gyflenwi i gadarnleoedd y Gymraeg rhagor unrhyw ran o'r Gymru wledig neu ôl-ddiwydiannol. O weithredu'n draws-adrannol gellid sicrhau cyflenwad o 'broadband' i ardal fyddai'n golygu y gellid cynnig anogaeth i ddiwydiant creadigol cynhenid, sydd angen cysylltiad o'r fath i sefydlu neu ad-leoli y tu allan i Gaerdydd. Byddai hynny'n creu swyddi, yn cadw'r ieuenctid ac yn dechrau sefydlu cydbwysedd economaidd rhwng yr ardaloedd hynny a'r brifddinas. Fel enghraifft arall yn yr un maes, mae'r cynulliad yn buddsoddi'n helaeth mewn systemau cyfrifiadurol. Dylai Cymru o bob rhan o'r Deyrnas Unedig fod yn flaengar yn nhechnoleg cyfieithu. Buddsoddiad fyddai hyn mewn rhyddhau talent yn y dyfodol i fod yn rhan o weinyddiaeth gyffredinol y Cynulliad a hefyd i sefydlu Cymru ar y blaen mewn byd lle mae'r angen am gyfieithu peirianyddol yn cynyddu o flwyddyn i flwyddyn. Mewn enghraifft arall, datgelwyd yn ddiweddar gan y gweinidog yn y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai fod polisau'r llywodraeth a'u gweithrediad ar gyfer holl gymunedau Cymru yn cyfarfod llawer o'r pryderon ynglyn â phrisiau tai yng nghadarnleoedd y Gymraeg. Yr uned hon fyddai'n sicrhau cydlynu polisiau cynllunio gwlad a thref addas i'r broydd Cymraeg o fewn y weinyddiaeth. Mae nifer o enghreifftiau tebyg fyddai'n cyfrannu at y math yma o shift heb fod angen chwilio am gyllid newydd. Ni all hyn ond digwydd os yw'n rhan annatod o weithrediad y Cynulliad

9. Mae angen edrych yn arbennig ar effaith mewnfudo ac allfudo ar ardaloedd gwledig. Mae'r iaith Gymraeg angen sicrhau parhâd y lluaws tyngedfennol yn yr ardaloedd hynny i sicrhau'r twf mewn ardaloedd eraill o arwyddocâd ieithyddol. Nid drwy gadw cymunedau'n statig ond drwy sicrhau'r deinamig sydd gan gymunedau cynaliadwy. Fel rhan o'r drafodaeth hon bydd angen rhoi ystyriaeth arbennig i fynediad i'r farchnad dai a swyddi da ac i'r gwasanaethau lleol - materion a ystyriwyd yn barod gan bwyllgorau eraill.

10. Nid swyddogaeth y pwyllgor hwn yw creu deddfwriaeth. Os bydd yr hyn a gynigir yn yr adroddiad, a chynnwys argymhellion y Pwyllgor Addysg, yn cael ei fabwysiadu gan y Cynulliad a'r llywodreth yn gweithredu arno bydd y weinyddiaeth, yn benodol swyddfa'r Cwnsel Cyffredinol, yn edrych ar yr holl oblygiadau. O'r broses honno y penderfynir ar yr anghenion deddfwriaethol.

11. Nid oes angen sefydlu Comisiwn i adrodd yn ôl ymhen dwy flynedd. Mae sicrhau'r lluaws tyngedfennol yn y cadarnleoedd traddodiadol yn golygu gweithredu'n gyflym ac mae'r arbenigwyr wedi cyflwyno a chyhoeddi tystiolaeth yn barod. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn bod er mwyn ystyried a gweithredu mewn sefyllfaoedd fel hyn ac y mae'r wybodaeth a'r grym ar gael i sefydlu'r fframwaith priodol.

Byddai'r uned a argymhellir o dan Fwrdd yr Iaith Gymraeg yn gweithredu fel Comisiwn Parhaol o arbenigwyr fydd yn gallu ymateb i'r newidiadau cyflym sy'n digwydd yn ystod y cyfnod chwyldroadol hwn.

12. Ni chynhwyswyd meysydd holl-bwysig Cymraeg i Oedolion ac Addysg Feithrin yn y papur hwn gan eu bod yn cyffwrdd â'r hyn a ystyrir gan y Pwyllgor Addysg. Mae rôl ELWa yn hyn yn ganolog ac mae'n bwysig peidio bod yn aneglur ar yr argymhellion ar hyn o bryd. Bydd y meysydd hyn, fel yr holl faes addysg yn gynwysedig yn yn yr adroddiad terfynol. Mae nifer o'r pwyllgorau pwnc a'r pwyllgorau rhanbarthol wedi ystyried yr Iaith Gymraeg yng nghyd-destun eu gorchwyl gwaith. Nid oes dim a nodir yma yn groes i'w hystyriaethau hwy. Ni chafodd maes cyfieithu ystyriaeth ddigonol hyd yn hyn. Bydd hynny'n digwydd yn ystod y sesiwn hon.

13. Pwrpas y papur hwn yw cyflwyno fy nghasgliadau cynnar o'r adolygiad i'r pwyllgor. Credaf ei bod yn bwysig ar hyn o bryd i ddechrau ystyriad y camau cadarnhaol y dylid ei cymryd i sefydlu'r nod o wlad ddwyieithog a gweld y rheini fel y camau fydd yn gallu amddiffyn yr iaith Gymraeg dros y blynyddoedd sydd i ddod. Gwyddom fod y pwysau gan newidiadau byd-eang yn newid pob sefyllfa'n gyflym ac nid yw geirfa amddiffynnol yn gyson ag anghenion y cyfnod yr ydym yn byw ynddo. Felly, sôn am weithredu effeithiol i sicrhau'r dyfodol mae'r papur hwn. Nid yw'r elfennau cost yn rhan o'r Papur Safleoli. Os bydd cytundeb cyffredinol ar y cyfeiriad, rhan nesaf y broses fydd trafod hynny yn fewnol a chydag asiantaethau eraill a dod a chynllun cyflawn gyda chostau i'r pwyllgor hwn erbyn dechrau Mawrth

Rhodri Glyn Thomas

Cadeirydd 02.01.02